PWYLLGOR PENODI

DYDD GWENER, 9 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Huw Thomas(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Cunnah, Gavin Hill-John, Weaver a/ac Boyle |

9 : YMDDIHEURIADAU (OS OES UNRHYW)

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

10 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau

11 : CYLCH GORCHWYL

Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod o ran penodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Prif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor.

12 : COFNODION (I DDILYN)

Cafodd cofnodion y Pwyllgor Penodi ar 2 Mawrth 2018 eu cymeradwyo a'u llofnodi fel cofnod cywir.

13 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD – Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth am yr eitem fusnes ganlynol ar y sail y datgelid gwybodaeth a eithrir, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod, i'r aelodau'r cyhoedd petaent yn bresennol yn ystod y drafodaeth:

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r awdurdod; a

Pharagraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

14 : PENODI PRIF SWYDDOG DIGIDOL

Cynullwyd y pwyllgor i gyfweld â'r pedwar ymgeisydd ar y rhestr fer a gyflwynwyd gan y pwyllgor ar 2 Mawrth 2018 ar ôl ystyried y canlyniadau o'r Ganolfan Asesu.

Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Prif Weithredwr bod ymgeisydd 4 wedi tynnu nôl o'r broses.

Fel rhan o'r broses gyfweld, rhoddodd pob ymgeisydd gyflwyniad 10 munud a rhoddwyd cyfle i aelodau archwilio cynnwys y cyflwyniad a gofyn cwestiynau amdano.  Dilynwyd hyn gan gwestiynau gosod ffurfiol a dau gwestiwn gorfodol.

Ar ddiwedd y broses gyfweld, trafododd y pwyllgor berfformiad pob ymgeisydd yn erbyn y cymwyseddau a'r ymatebion enghreifftiol.

Cytunodd y Pwyllgor eu bod yn gallu penodi rhywun i swydd y Prif Swyddog Digidol.

PENDERFYNWYD –

1. Penodi Isabelle BIgnall i'r swydd Prif Swyddog Digidol ar y cyflog blynyddol â hysbysebwyd gyda'r swydd;

2. cynhaliwyd y broses ddethol yn unol â'r broses benodi a bod pob ymgeisydd wedi cael ei drin yn gyfartal ac yn deg. Penodwyd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ôl ei haeddiant.

15 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen ystyried yr eitem hon.

*(Daeth y cyfarfod i ben am 14.05pm).*